# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), D Davies, D Batrouni, J Clarke, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd cofnodion 14 Mehefin 2023 fel rhai cywir.

4 **Alldro Cyllideb Refeniw 2022/23**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar yr agenda, oedd yn esbonio alldro'r Cyngor am gyllideb refeniw 2022/23 a'r materion allweddol oedd yn codi.

Yn erbyn cyllideb net o £343miliwn, cynhyrchodd alldro refeniw 2022/23 danwariant net, wedi trosglwyddiadau a gynlluniwyd yn ôl ac ymlaen o'r cronfeydd wrth gefn o £5.1m, sef amrywiad o 1.5% yn erbyn y gyllideb.

Yr oedd y sefyllfa derfynol hon yn welliant ar y sefyllfa yr adroddwyd arni yn flaenorol i'r Cabinet, yn bennaf oherwydd cyllid grantiau a ddaeth yn hwyr, incwm ychwanegol, a gostyngiad bychan mewn galw yn rhai meysydd.

Esboniodd yr Arweinydd, yn 2022/23, fod y tanwariant o £5.1m wedi ei achosi gan y canlynol:

(i) Tanwariant yn erbyn cyllidebau heb fod yn rhai gwasanaeth, yn benodol y gyllideb gyffredinol ac wrth gefn ar gyfer covid. Cynyddwyd y cyllidebau wrth gefn dros dro yn 2022/23 yn dilyn Covid, ac nid oedd angen cydbwyso'r gyllideb eleni.

(ii) Derbyn mwy o log oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau llog, balansau buddsoddi uwch na'r disgwyl a mwy o arbedion ar y llog taladwy oherwydd oedi cyn gorfod benthyca, a achoswyd gan lithriad yn y rhaglen gyfalaf. Hefyd bu tanwariant ar y cynllun gostyngiadau Treth Cyngor.

(iii) Er hynny, gwrthweithiwyd y tanwariannau hyn gan orwariant mewn meysydd gwasanaeth oherwydd mwy o alw a chostau cynyddol yn sgil pwysau chwyddiant. Lleoliadau brys yn y Gwasanaethau Plant a'r galw am lety dros dro mewn tai a Chymunedau oedd y ddau faes lle bu'r galw drymaf. Yr oedd y dyfarniad tâl uwch na'r disgwyl i staff y Cydgyngor Cenedlaethol (CGC) ledled y cyngor hefyd wedi cyfrannu llawer at y sefyllfa hon.

Mae esboniadau manwl o'r gorwariant a'r tanwariant yn erbyn cyllidebau yn adran 2 yr adroddiad.

Er bod yr alldro yn gyffredinol yn gadarnhaol o ran cyllid y Cyngor, yr oedd materion penodol oedd â'r potensial i gael effaith am y flwyddyn i ddod. Ymdriniwyd â nifer o'r materion hyn fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24, er y gallai rhai ddal i gael effaith yn ystod y flwyddyn. Esboniwyd y risgiau hyn yn adran 4 yr adroddiad ac y maent yn dal i gael eu monitro gan y Tîm Gweithredol.

Oherwydd bod amrywiadau yng nghyllidebau ysgolion yn cael eu rheoli trwy falansau ysgolion unigol, nid oedd y tanwariant cyffredinol o £5.1m yn cynnwys sefyllfa'r ysgolion. Yn 2022/23, gorwariodd ysgolion gyda'i gilydd o £1.3m, a gostyngodd balansau ysgolion o £15.7m i £14.4m fel ar 31 Mawrth 2023.

Yng ngoleuni'r lefel sylweddol o arbedion y mae'n rhaid i ysgolion wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, mae swyddogion yn dal i fonitro balansau ysgolion yn agos dros y tymor canol fel rhan o strategaeth y Cyngor i osgoi ac atal diffyg.

Fel rhan o'r cyfarfod hwn, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r defnydd o'r tanwariant hwn.

Cyn symud ymlaen i ystyried, gwahoddodd yr Arweinydd gydweithwyr i wneud sylwadau cyffredinol am yr adroddiad.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r ysgolion am eu gwaith caled yn gosod cyllideb gytbwys yn ystod yr amseroedd hynod heriol hyn. Dywedodd y Cynghorydd Davies fod staff ysgolion yn gweithio'n agos gyda swyddogion cyllid i sicrhau fod cyllidebau cytbwys yn cael eu gosod, ac y maent yn benderfynol o wario'u cyllidebau yn ddoeth ac yn ofalus.

§ Ychwanegodd y Cynghorydd Batrouni, er bod croeso i'r tanwariant, fod y Cyngor yn dal i wynebu heriau at y dyfodol. Yr oedd cyfraddau llog, pwysau ar wasanaethau'r cyngor ac aelwydydd yn golygu mwy o bwysau ar y Cyngor yn y man. Yr oedd yn ystyried nad oedd y pwysau gorwario ar dai, gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau allsirol yn debyg o leihau. Rhannodd y Cynghorydd Batrouni y rhagolygon ledled Cymru o ddiffyg o rhwng £300 a £400 miliwn, ac y dylai'r Cyngor ystyried hyn.

Er bod cyllid unwaith-am-byth yn hynod ddefnyddiol eleni ac yn y blynyddoedd i ddod, er mwyn cefnogi'r Cyngor i gyflwyno ei flaenoriaethau corfforaethol, dylai'r Cabinet, fel y soniodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol, fod heriau yn parhau.

Dywed adran 5 yr adroddiad sut y bwriedir defnyddio'r £5.1m:

- £947k i gefnogi cyflwyno gwasanaethau, gan gynnwys darparu cludiant i ddisgyblion ysgolion cynradd St Andrews a Millbrook ac ymyriadau gorfodi tai gwag, cymorth ariannol, ac adennill dyledion,

- £1.9m i reoli risgiau gweithredol yng nghyd-destun llai o argyfyngau a phwysau ar y gyllideb, a

- Dyrannu'r balans gweddilliol o £2.17m i'r arian cyfalaf wrth gefn i hybu lefel gyffredinol yr arian cyfalaf rhydd, a thrwy wneud hynny roi mwy o allu i gefnogi sawl prosiect unigol yng nghyswllt y rhaglen gyfalaf.

- Bydd y Cabinet yn rhoi manylion am y prosiectau yn y man, ond mae ymrwymiad i sicrhau y bydd o leiaf hanner hyn yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer yr adran briffyrdd i ymdrin â'r meysydd mwyaf problemus, sef tyllau yn y ffordd a materion eraill.

O ystyried yr amgylchedd allanol fel y mae, yr oedd yr Arweinydd hefyd am i'r Cabinet gymeradwyo symud cyfran o'r arian hwnnw i bartneriaid y trydydd sector er mwyn lliniaru newyn adeg y gwyliau am chwe wythnos ar draws Casnewydd, hyd nes y pennir y ffigwr terfynol.

Byddai cyfanswm balans yr arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2023, yn dilyn y trosglwyddiadau a osodir allan yn yr adroddiad, yn gostwng i £138.9m o'r balans o £151.9m flwyddyn yn ôl. Crynhoir y symudiadau arwyddocaol yn adran 5 yr adroddiad.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

§ Soniodd y Cynghorydd Harvey fod newyn adeg y gwyliau yn real iawn, a bod 95% o deuluoedd mewn tlodi er eu bod yn gweithio, a bod hyn yn debyg o waethygu, felly yr oedd yr Aelod Cabinet dros Gymuned a Lles yn llawn gefnogi'r cyllido.

§ Yr oedd y Cynghorydd Davies hefyd yn cefnogi'r cynnig. Arferai teuluoedd yng Nghasnewydd dderbyn talebau gwyliau ysgol, ac yr oedd plant wedi dod i ddibynnu ar brydau ysgol am ddim, ac yr oedd teuluoedd fell yn trefnu eu harian yn ôl hynny. Nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn gallu darparu'r talebau hyn, ond yr oedd yn dal yn flaenoriaeth, felly ystyriai'r Aelod Cabinet dros Addysg yn tybio ei bod yn newyddion gwych fod y Cyngor yn cefnogi'r teuluoedd hyn yn ystod gwyliau'r ysgol.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn:

1. Nosi'r sefyllfa alldro, fyddai'n cael ei harchwilio, a'r amrywiadau mwyaf am y flwyddyn (adrannau 1-3);
2. Cymeradwyo defnyddio'r tanwariant ac arian arall wrth gefn a drosglwyddwyd, fel sydd wedi ei osod allan yn adran 5 yr adroddiad, gan nodi lefel arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor a'r hyn a glustnodwyd;
3. Nodi sefyllfa alldro'r ysgolion a sefyllfa arian wrth gefn ysgolion yn unigol a chyffredinol (adran 3).

5 **Alldro Cyfalaf ac Ychwanegiadau 2022/23**

Yr adroddiad nesaf a gyflwynodd yr Arweinydd oedd adroddiad alldro y Rhaglen Gyfalaf am 2022/23. Dyma adroddiad terfynol y flwyddyn ar weithgaredd cyfalaf oedd yn rhoi trosolwg o swm terfynol y gwariant cyfalaf a ddaeth i'w rhan yn y flwyddyn, o gymharu â'r gyllideb a ddyrannwyd. Fel rhan o hyn, yr oedd yr adroddiad yn amlinellu lefel y llithriad a'r tanwariant, ac yn rhoi cyfoesiad am lefel yr arian rhydd cyfalaf oedd ar gael.

Yn ychwanegol at hyn, yr oedd yr adroddiad yn amlinellu'r ychwanegiadau at y rhaglen a nodwyd, ac yn gofyn i'r Cabinet am yr hawl i'w cynnwys.

- Yr oedd yr adran gyntaf yn amlinellu'r symud yn y gyllideb gyfalaf ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Chwefror.

- Yr oedd cyfanswm gwerth yr ychwanegiadau a'r gwelliannau yn £51m, ond cafodd mwy na hanner hyn ei gymeradwyo'n ffurfiol fel rhan o gytuno ar y Strategaeth Gyfalaf am 2023/24. Felly, yr oedd gwerth yr ychwanegiadau oedd angen eu cymeradwyo, a'r rhan fwyaf ohonynt yn grantiau allanol, yn £18.5m. Mae'r ychwanegiadau hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb am y flwyddyn i £91.8m.

- Mae dadansoddiad pellach o'r ychwanegiadau hyn yn Atodiad A.

Yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig, cafwyd cyfanswm gwariant o £61.2m, sef amrywiad o £30.6m.

Yr oedd yr amrywiad hwn yn danwariant neu o £47,000 ac, yn fwy arwyddocaol, cyfanswm llithriad o £30.553m. Rhaid oedd cario'r llithriad hwn ymlaen i'r blynyddoedd i ddod er mwyn gallu cwblhau cynlluniau sydd eisoes yn mynd rhagddynt a rhai a gymeradwywyd eisoes.

Cynyddodd gwerth cyffredinol y llithriad o £3m ers yr adroddiad diwethaf. A siarad yn gymharol, cynnydd bychan oedd hwn o gymharu â'r hyn a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Yr oedd hyn yn bennaf oherwydd bod nifer o gynlluniau mawr bellach yn mynd rhagddynt, ond hefyd oherwydd ail-broffilio a wnaed yn ystod y misoedd a aeth heibio.

Nodwyd, serch hynny, fod lefel gyffredinol y llithriad yn dal yn arwyddocaol, a bod angen rheoli hyn yn gadarn yn y dyfodol.

Hefyd, yr oedd angen adolygiad pellach o gyllideb gyfalaf 2023/24, er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn adlewyrchu proffil realistig. Ar hyn o bryd, yr oedd y gyllideb bron yn £95m a byddai cyflwyno hyn yn her. Rhaid oedd felly ail-broffilio hyn ar draws gweddill y rhaglen er mwyn cynyddu'r siawns o gyflwyno yn erbyn y gyllideb a lleihau lefel y llithriad yr adroddir amdano yn y blynyddoedd i ddod.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion am lefel yr arian cyfalaf rhydd sydd ar gael ar hyn o bryd, y gellid ei ddefnyddio i gefnogi cynlluniau newydd.

Mae hwn yn awr yn £9.774m, wedi caniatáu am ddau ymrwymiad blaenorol yn erbyn y cyllid hwn.

Yr oedd y rhan fwyaf o'r balans yn cael ei ddal yn y gronfa gwariant cyfalaf wrth gefn, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ym mis Chwefror i drosglwyddo gwerth llawn tanwariant refeniw gweddilliol 2021/22 (£7.9m) i'r gronfa honno wrth gefn.

Er y cynyddwyd yr arian rhydd yn sylweddol yn ddiweddar, yr oedd angen o hyd cadw rheolaeth lem dros y defnydd ohono, fel y byddai ar gael yn unig i'r materion pwysicaf, fel y deuant i'r golwg.

Hefyd, byddai angen manteisio ar unrhyw gyfle i gynyddu swm yr arian rhydd, er mwyn cefnogi cymaint o brosiectau ag sydd modd, a sicrhau hefyd bod digon o arian ar gael i ymateb i unrhyw godiadau cost mewn cynlluniau sy'n bod eisoes, yn sgîl cynnydd mewn costau adeiladu.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- § Yr oedd y Cynghorydd Batrouni yn croesawu elfen yr arian rhydd yn yr adroddiad, gan adlewyrchu fod cyfraddau llog yn uchel, a chan gofio hyn, mai doeth fyddai cynyddu swm yr arian rhydd er mwyn rhoi lle a hyblygrwydd i'r Cyngor at y dyfodol. Yr oedd yr adroddiad felly i'w groesawu.

- § Cytunodd y Cynghorydd Davies gyda sylwadau ei chydweithwyr am yr arian cyfalaf rhydd, yn ogystal â dangos lefel o fod yn ddarbodus gyda phrosiectau at y dyfodol.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo'r ychwanegiadau i'r Rhaglen Gyfalaf y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad (Atodiad A).
2. Nodi sefyllfa alldro y gwariant cyfalaf am 2022/23.
3. Cymeradwyo llithriad o £30.553m o gyllideb 2022/23 at y blynyddoedd i ddod.
4. Nodi'r adnoddau cyfalaf gweddilliol oedd ar gael ('arian rhydd') a chlustnodi'r defnydd o'r adnoddau hynny.

## 6 Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gyflwyno'r adroddiad blynyddol oedd yn rhoi manylion am gynnydd y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg fel rhan o fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o gynnydd y Cyngor i gwrdd â'r safonau, yn cynnwys gwybodaeth oedd angen ei gyhoeddi yn flynyddol, crynodeb o lwyddiannau allweddol yn ystod y flwyddyn, a meysydd blaenoriaeth am waith at y dyfodol.

Er mai adroddiad gan Gyngor Dinas Casnewydd oedd hwn, yr oedd ymwneud, datblygu a chyd-gynhyrchu wrth galon yr holl weithgareddau a'r digwyddiadau. Da iawn pawb.

Nododd Aelodau'r uchafbwyntiau o'r flwyddyn, gan gynnwys:

- o Y cynnydd sylweddol yng nghyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i weithlu'r cyngor, gyda 99 aelod o staff wedi eu hyfforddi.

- o Mabwysiadu Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSAG) 2022-2032 y Cyngor a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

- o Lansio Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg y Cyngor, sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg trwy recriwtio a hyfforddi.

Mae'r adroddiad hefyd wedi nodi'r blaenoriaethau allweddol am 2023-24, gan gynnwys:

- o Adeiladu ar y trefniadau partneriaeth creadigol a ddatblygwyd y tu hwnt i'r sector cyhoeddus a gwirfoddol i godi proffil y Gymraeg ledled Casnewydd, gyda chyfleoedd yn rygbi'r Dreigiau a CPD Casnewydd.

- o Datblygu agwedd gydlynus at sgiliau iaith Gymraeg ar draws ein partneriaid Casnewydd yn Un trwy'r Bwrdd Sgiliau Cywir.

- o Canolbwyntio fwy fyth ar recriwtio, cadw a datblygu siaradwyr Cymraeg ar draws holl feysydd gwasanaeth y cyngor, a

- o Hwyluso a chefnogi digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn ac edrych ar y themâu trawsdorri ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol ac sy'n arwain ar Gydraddoldeb a'r Iaith Cymraeg i roi sylwadau.

Diolchodd y Cynghorydd Batrouni i'r Arweinydd a nodi ei fod, fel yr Aelod Cabinet sy'n arwain ar yr iaith Gymraeg, ei fod yn croesawu'r Adroddiad Monitro blynyddol hwn ar yr Iaith Gymraeg sydd yn adlewyrchu ein llwyddiannau, perfformiad a chydymffurfio â'n dyletswyddau statudol.

Mae eleni eto wedi dangos ymrwymiad y cyngor i'r iaith Gymraeg tra'n bod wedi ymaddasu i lacio cyfyngiadau'r pandemig byd-eang a'r galwadau cyson ar ein cyllideb i wneud cynnydd pendant yn erbyn ein hymrwymiadau i'r Gymraeg yn y ddinas. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol na allai'r Cyngor wneud hyn ar eu pennau eu hunain a bod angen cefnogaeth y gymuned a siaradwyr Cymraeg yn y ddinas i ddod ynghyd, ac na fu modd gwneud hyn yn ystod y pandemig. Dywedodd y Cynghorydd Batrouni mai'r gobaith at y dyfodol oedd gweithio mewn partneriaeth i gynyddu'r math hwn o weithgaredd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Batrouni a manteisiodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r Cynghorydd John Harris am gefnogi'r gwaith yn ei rôl fel Pencampwr yr Iaith Gymraeg. Diolch yn fawr iawn.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

§ Anerchodd y Cynghorydd Hughes ei gydweithwyr yn y Cabinet yn Gymraeg ac yn Saesneg.

*Mwy nag ugain mlynedd yn ôl pan gyrhaeddais i Gasnewydd, roedd bron iawn bopeth i'w ymwneud â'r iaith Gymraeg yn frwydr i fyny'r allt.*

*Erbyn hyn rydym yn gweld nawr ymwybyddiaeth o'r Ddinas yn tyfu – gan Gyngor rhagweithiol sy'n cysylltu â'r gymuned.*

*Mae'n gywir y bydd ein ffocws y flwyddyn nesaf ar bartneriaethau a datblygu staff ein hunain.*

*Mae'r gwaith hwnnw gwaith ein ffrindiau yn y ddinas yn gwneud gwahaniaeth mawr.*

*Ysgolion Cymraeg, bandiau Cymraeg, gwyliau Cymraeg fel Mari Lwyd a gwaith gwych y Fenter a Chapel Seion ac eraill yng nghanol y ddinas.*

*Diolch i'r aelod cabinet a'i swyddogion am eu gwaith i baratoi'r adroddiad a thrwy gydol y flwyddyn am eu gwaith i helpu sicrhau dyfodol llwyddiannus i'r iaith Gymraeg yn ein cyngor.*

Dros ugain mlynedd yn ôl pan gyrhaeddais i yng Nghasnewydd am y tro cyntaf roedd bron popeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn frwydr.

Yr hyn yr ydym yn ei weld nawr yw dinas y mae ei hymwybyddiaeth ar gynnydd a gefnogir gan gyngor sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned. Mae'n dda y bydd ein ffocws yn y flwyddyn i ddod ar bartneriaethau a datblygu ein staff ein hunain ym mhob un o'n gwasanaethau.

Mae'r gwaith a wnawn fel cyngor a chyda'n ffrindiau a'n partneriaid yn cael effaith ar y ddinas. Rydym wedi gweld ymrwymiad Casnewydd i addysg Gymraeg, a'n tafarndai yn cael bandiau Cymraeg a gwyliau Cymreig fel Mari Lwyd yn dod â'r hen draddodiadau a chaneuon i strydoedd ein dinas. Rwy'n falch fel siaradwr Cymraeg i fod yn rhan o gyngor sy'n cofleidio elfennau cadarnhaol ein hiaith hardd.

Diolch i'r Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol, yr Arweinydd a'n swyddogion am eu hymdrechion i lunio'r adroddiad hwn a thrwy gydol y flwyddyn wrth gefnogi'r iaith i dyfu yn ein dinas.

- Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Hughes ac yr oedd wrth ei bodd yn ei glywed yn rhoi ei ymateb yn Gymraeg.

- Soniodd y Cynghorydd Davies fod y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg wedi ei fabwysiadu llynedd. Yr oedd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar wedi cwrdd yn ddiweddar â Gweinidog Addysg Cymru, a'r hyn oed yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru oedd ein cryfder a'n ffocws strategol yn yr adroddiad; yn benodol o ran datblygu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ledled Casnewydd. Byddai hyn yn cael ei ddatblygu dros y 10 mlynedd nesaf, ac yr oedd yn gynllun cryf i ymfalchïo ynddo. Nodwyd mai'r blaenoriaethau allweddol yn ysgolion Casnewydd oedd sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r dewisiadau o ran addysg Gymraeg, a'u bod yn deall manteision addysg ddwyieithog. Yr oedd yr Aelod Cabinet ei hun wedi gweld rhieni yn cael eu gwahodd i'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu, megis helpu gyda gwaith cartref, a hwy eu hunain yn dysgu Cymraeg. Yr oedd yn wych gweld Adroddiad Blynyddol y Gymraeg eleni, ac yr oedd y Cynghorydd Davies yn edrych ymlaen at adroddiad y flwyddyn nesaf, a fyddai'n well fyth.

- Dywedodd y Cynghorydd Marshall ei fod yn adroddiad diddorol, a bod dulliau a chyfleoedd eraill i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Bu mewn digwyddiad yn ddiweddar i blant Hwngaraidd ym Maendy, lle'r oedd cymysgedd o ieithoedd yn cael eu siarad, gan gynnwys y Gymraeg. Dywedodd y Cynghorydd Marshall ei fod wedi sylw cynnydd yn y denfydd o'r iaith Gymraeg gan bobl ifanc yn y ddinas. I fwrw ymlaen gyda'r cynllun i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, teimlai'r Cynghorydd Marshall mai'r ffocws oedd i'r rhai oedd yn siarad Cymraeg mewn cyd-destun ffurfiol hefyd allu siarad yr iaith yn gymdeithasol. Dywedodd y dylai aelodau etholedig ac Aelodau Cabinet sylwi ar yr effeithiau yn eu wardiau eu hunain, a gweld cyfleoedd at y dyfodol.

- Cytunodd y Cynghorydd Forsey ei fod yn adroddiad diddorol dros ben a bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i gefnogi'r iaith Gymraeg megis canu, coginio a gweithgareddau i'r teulu. Yr oedd yn teimlo mai agwedd bwysig o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg oedd hyrwyddo diwylliant Cymru, a bod nifer o ddolenni i fideos yn yr adroddiad y dylid eu gwylio. Crybwyllodd y Cynghorydd Forsey hefyd ar nifer isel iawn y cwynion am yr iaith Gymraeg; tri yn unig i Gyngor Dinas Casnewydd, a dau at Gomisiynydd y Gymraeg, ac yr oedd yn gadarnhaol iawn gweld camau yn cael eu cymryd a phroblemau'n cael eu datrys. Teimlai fod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i hyrwyddo'r Gymraeg, fel gyda Casnewydd Fyw oedd yn darparu cardiau fflach yn y Gymraeg i'w staff.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad monitro blynyddol, ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn unol â'r terfynau amser statudol.

7 **Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Ch4)**

Rhoddodd yr Arweinydd gyfoesiad am Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer diwedd Chwarter 4 (1 Ionawr 2023 hyd at 31 Mawrth 2023).

Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a monitro'r risgiau hyn yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae Polisi Rheoli Risg y Cyngor a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r weinyddiaeth a swyddogion i nodi, rheoli a monitro yn effeithiol risgiau a allai atal y Cyngor rhag cyflawni blaenoriaethau strategol a chynnal dyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Bydd yr adroddiad risgChwarter 4 hefyd yn cael ei gyflwyno i  Bwyllgor y Cyngor yn nes ymlaen y mis hwn i adolygu prosesau rheoli risg y Cyngor a'r trefniadau llywodraethiant.

Ar derfyn Chwarter 4, cofnododd Cyngor Dinas Casnewydd 45 o risgiau ar draws unarddeg maes gwasanaeth y Cyngor.

Anfonwyd y risgiau hynny y tybiwyd oedd yn rhoi'r risg mwyaf i gyflwyno Cynllun Corfforaethol y Cyngor at y Gofrestr Risg Gorfforaethol i'w monitro.

Ar derfyn Chwarter 3, cofnodwyd 14 risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- 8 Risg Ddifrifol (15 i 25).
- 6 Risg Fawr (7 i 14).

O gymharu â Chwarter 3, yr oedd un risg, *Dileu Elw o Ofal Cymdeithasol* oedd wedi ei hanfon i fyny o'r Gwasanaethau Plant:

- Yr oedd y Cyngor yn cychwyn ar raglen arwyddocaol o waith i gefnogi polisi Llywodraeth Cymru o ddileu elw o ofal cymdeithasol plant.

- Mewn ymateb, gwelodd y Cyngor ddarparwyr yn tynnu'n ôl o'r farchnad, oedd yn golygu bod y Cyngor yn gorfod gwneud lleoliadau gyda chwmnïau oedd yn 'gweithredu heb drwydded' oedd yn drosedd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Yr oedd y Cyngor yn llawn ymwybodol o'r risg ac yn cytuno mai risg gorfforaethol ydoedd. Yr oedd y Cyngor yn gweithio'n galed iawn gyda darparwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod plant yn derbyn gofal gan y darparwyr gorau ar gyfer eu hanghenion.

Cafodd un risg, Clefyd Marwolaeth yr Ynn hefyd ei thynnu o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i fynd ar y gofrestr risg Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd ar derfyn Chwarter 4.

- Yn dilyn nodi ac asesu Clefyd Marwolaeth yr Ynn ar draws Casnewydd, gweithredodd y Cyngor ar unwaith i dorri coed oedd â Chlefyd Marwolaeth yr Ynn o ardaloedd risg uchel.

- Defnyddiwyd cyllid a neilltuwyd gan y Cyngor hefyd i blannu coed o'r newydd, gan sicrhau yr atebwyd ac y gwellwyd yr ymrwymiad ecolegol y Cyngor i amddiffyn a gwella amgylchedd Casnewydd.

- Byddai'r maes gwasanaeth yn dal i fonitro ac adrodd yn erbyn y risg hon ac yn gweithio i symud coed a heintiwyd a chyda'r rhaglen o blannu coed o'r newydd.

Dangosodd yr adroddiad risg hefyd fod dwy risg yng nghyswllt sefydlogrwydd darparwyr gwasanaethau cymdeithasol a phwysau ar wasanaethau oedolion wedi gwella ers Chwarter 3.

- Gostyngodd y ddwy sgôr risg o 25 i 20 ar ddiwedd Chwarter 4.

- Bu gwelliannau i sefydlogrwydd darparwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyda gwasanaethau oedolion yn llif y pecynnau gofal.

- Er hynny, yr oedd gwasanaethau darparwyr yn dal mewn sefyllfa ansicr, a bydd y Cyngor yn dal i gadw llygad ar y sefyllfa yn 2023/24.

- o Gwella hefyd wnaeth y pwysau ar wasanaethau oedolion yn dilyn recriwtio i swyddi allweddol yn y gwasanaeth. Yr oedd yn bwysig parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol a swyddogion yn y gwasanaethau cymdeithasol wrth iddynt chwarae rôl hanfodol o ran diogelu'r trigolion a'r gofalwyr mwyaf bregus yng Nghasnewydd.

Adroddwyd bod i'r 12 risg oedd weddill yr un sgôr risg ag yn chwarter tri.

I gloi, gofynnwyd i'r Cabinet gytuno ar gynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Chwarter 4), i barhau i fonitro'r risgiau hyn a'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- § Tynnodd y Cynghorydd Marshall sylw at yr anawsterau a gaed yn y Gwasanaethau Plant, oedd yn amgylchedd heriol. Yr oedd y rheolwyr yn rhoi'r gofal gorau bosib i blant, a chan gadw hynny mewn cof, yr oedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Plant) eisiau diolch i'r staff am eu holl waith yn cefnogi plant.

- § Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y ffaith fod cyllidebau ysgolion yn y safle oren, a'r cynnydd mewn risg o ran cyllidebau. Pwysleisiodd mai cyfrifoldeb allweddol pawb oedd cefnogi ysgolion yn eu penderfyniadau ariannol. Aeth ymlaen i ddweud fod y galw am gefnogaeth ADY ac AA yn dal yn ganolbwynt, oherwydd bod y galw'n cynyddu Teimlai'r Cynghorydd Davies fod yr anghenion hyn yn cael eu trin, a rhoes enghraifft yr ehangu diweddar fu yn Ysgol Bryn Derw, a sefydlwyd yn unswydd i blant ag ASA. Sylwodd hefyd ar y ddarpariaeth ADY newydd fyddai'n cael ei agor toc yn Ysgol Llanwern yn yr hydref. Rhoddwyd sicrwydd i'r Cynghorydd Davies y byddid yn ymdrin â'r materion hyn, ond bod lleoliadau y tu allan i'r ysgol yn dal yn bryder. Yn gyffredinol, byddai'r risgiau hyn yn cael eu monitro'n gyson.

- § Adleisiodd y Cynghorydd Harvey sylwadau'r Cynghorydd Marshall o ran gwaith caled y staff. O ran lleoliadau allsirol, yr oedd hyn allan o ddwylo'r Cyngor, gan mai barnwr mewn llys fyddai'n gwneud y penderfyniad.

- § Dywedodd y Cynghorydd Hughes hefyd fod y pwysau yr oedd y timau danynt yn bennaf yn rhai allanol.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys cyfoesiad chwarter pedwar ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## 8 Pwysau Allanol NCC - Costau Byw

Yr adroddiad olaf ar yr agenda a gyflwynwyd gan yr Arweinydd oedd yr adroddiad misol oedd yn rhoi i'r aelodau y cyfoesiad am y prif bwysau allanol oedd yn wynebu'r cyngor, busnesau, trigolion a chymunedau.

Yr argyfwng costau byw oedd un o'r prif feysydd pryder o hyd i drigolion, busnesau a gwasanaethau. Am yr ail fis yn olynol, yr oedd cyfradd chwyddiant y DU ym Mai yn 8.7% , gyda phrisiau bwyd a diodydd di-alcohol yn codi rhwng Ebrill a Mai.

Yr oedd dolen yn yr adroddiad i arolwg Cyngor ar Bopeth a ganfu fod cymaint â miliwn o bobl wedi cael eu band llydan wedi ei dorri ymaith llynedd, wrth i'r argyfwng costau byw olygu nad oeddent yn gallu fforddio cyrchu'r rhyngrwyd. Yr oedd effaith hyn yn arwyddocaol o ran cyrchu'r gefnogaeth mae ar deuluoedd ei angen.

Yr oedd Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd Casnewydd yn Un yn parhau i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth fel elfen hanfodol i gefnogi trigolion a busnesau, ac anogodd yr Arweinydd i drigolion oedd yn cael anawsterau i gysylltu â'r cyngor am wybodaeth am y gefnogaeth oedd ar gael, naill ai yn bersonol, dros y ffôn neu trwy ymweld â thudalennau'r wefan.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y modd yr oedd swyddogion yn y cyngor a'r asiantaethau oedd yn bartneriaid yn dal i gydweithio i gydgordio a rhoi cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd i'r trigolion.

Yr oedd digwyddiadau costau byw yn cael eu cynnal ledled y ddinas i roi cyfle i'r trigolion gael help, cefnogaeth, a chyngor am ddim ar reoli dyledion a chael y mwyaf o'u hincwm.

O Fedi 2023 ymlaen, byddai ysgolion Casnewydd wedi gweithredu cynllun Llywodraeth Cymru o gael prydau ysgol am ddim i bob plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2, sy'n golygu y bydd pob disgybl cynradd yn elwa o'r fenter hon.

Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i'r cymunedau Wcrainaidd, a'r bwriad i gau'r cynllun uwch-noddwyr, yr oedd swyddogion yn canolbwyntio ar ddatblygu mentrau tai i gwrdd â'r galw. Anogwyd cydweithwyr yn y Cabinet i hyrwyddo'r cynllun i drigolion ledled Casnewydd ddod ymlaen i fod yn 'westywyr'.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Cytunodd y Cynghorydd Harvey fod yr argyfwng costau byw yn erchyll, ac yr oedd yn pryderu fod pobl yn troi at fenthyciadau diwrnod tâl a chardiau credyd, pan fo mathau eraill o help ar gael. Anogodd bobl i ddod i gysylltiad â'u cynghorydd lleol, a thynnodd sylw at y digwyddiadau cymunedol a gynhelir gan y Cyngor i helpu teuluoedd. Gallai teuluoedd hefyd ofyn am barseli bwyd fel cefnogaeth ychwanegol. Anogodd y Cynghorydd Harvey drigolion i beidio â chwympo i fagl dyled ychwanegol, ond i gysylltu â'r cyngor a alli ddweud wrthynt pa gefnogaeth sydd ar gael.

§ Soniodd y Cynghorydd Marshall mai peth cadarnhaol oedd gweld nifer o ddigwyddiadau yng Nghasnewydd, o gefnogaeth i ofalwyr, i ddigwyddiad yn Tesco, Heol Caerdydd. Dywedodd hefyd fod caffi cysylltwyr cymunedol ar gael yn y Riverfront, lle gallai gofalwyr gael help a chyngor, a bod hyn yn mynd ymhell i helpu pobl i fod yn annibynnol.

§ Canolbwyntiodd y Cynghorydd Davies ar flaenoriaeth Casnewydd mewn addysg o fynd i'r afael â phob agwedd o dlodi. Yr oedd prydau ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno ym mhob ysgol ar ddechrau Tymor yr Hydref. Yr oedd y Cyngor yn gwneud yn well na disgwyliadau Llywodraeth Cymru, ac yr oedd y Cynghorydd Davies am ddiolch i'r swyddogion oedd yn gweithio mor galed i sicrhau y byddai hyn yn digwydd. Dywedodd fod nifer y plant oedd angen prydau ysgol am ddim yn y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu'n sylweddol, ac aeth ymlaen i ddweud fod y Cyngor yn cefnogi plant trwy ddatblygu strategaeth i daclo tlodi, oedd yn mynd rhagddo ac a fyddai'n parhau i ddatblygu dros y tair blynedd nesaf fel rhan o'r cynllun gwasanaeth. Dywedodd y Cynghorydd Davies fod athrawon wedi croesawu'r lefel hon o ymrwymiad a chefnogaeth, a bod hyn yn cael ei gefnogi hefyd gan Plant yng Nghymru. Datblygwyd partneriaeth yn ddiweddar gyda Banc Lloegr, i ddwyn ymwybyddiaeth ariannol i mewn i'r cwricwlwm, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid ariannol eraill yn y dyfodol. Byddai llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu i Benaethiaid a Llywodraethwyr i godi ymwybyddiaeth o'r blaenoriaethau allweddol o ran taclo tlodi.

§ Ychwanegodd y Cynghorydd Batrouni mai gwych o beth oedd clywed am holl ymdrechion anhygoel cydweithwyr yn y Cabinet a'r Cyngor, a gobeithiai y byddai'r pwysau a wynebai'r Cyngor a thrigolion yn cael eu trin fel mater o flaenoriaeth.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgareddau'r Cyngor i ymateb i ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau cyngor Casnewydd.

9 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.